

CYFFES FFYDD

31. Am weithredoedd da.

Y mae'n angenrheidiol i weithredoedd, tuag at fod yn dda, fod yn orchmynedig gan Dduw, ac yn unol â'i ewyllys ef (a); yn tarddu o egwyddor dda ac uniawn, a'u bod yn cael eu gwneuthur mewn ffydd, ac i ddiben da, sef bod yn cael eu gwneuthur mewn ffydd, ac i ddiben da, sef i ogoniant Duw; oblegid fel y mae yn rhaid i'r pren fod yn dda cyn y byddo y ffrwyth yn dda, felly y mae yn rhaid i bechadur gael ei gymodi â Duw, ei uno â Christ, a bod yn gyfrannog o'i Ysbryd, cyn y gallo wneuthur un weithred dda (b). Nid yw gweithredoedd gorau y dynion gorau ond amherffaith; am hynny, nid ydynt yn rhyglyddu dim ar law Duw, nac yn ennill iachawdwriaeth i ddynion (c); er hynny, y maent yn dra angenrheidiol, gan eu bod wedi eu hordeinio a'u gorchymyn gan Dduw, ac yn addurn a harddwch i'n proffes ninnau; yn esiamplau i eraill, ac yn tueddu i ostegu anwybodaeth dynion ffolion, ac i gael eu gwneuthur bob amser, ac hyd eithaf ein gallu (d).

31. Of Good Works.

Good works are such works only as are commanded by God and are according to his will (a) : such as spring from a good and upright principle, and are done in faith and directed to a right end, that is, the glory of God : for as the tree must be good before it can bring forth good fruit, so a sinner must be reconciled to God, united to Christ, and made a partaker of his Spirit, before he can do one good work (b). The best

works of the best men are imperfect, and therefore neither merit anything from God nor obtain salvation for men (c). Notwithstanding, good works are very necessary to be done at all times and to the utmost of our power, inasmuch as they have been ordained and commanded by God, and are the adornment and beauty of our profession, an example to others, and a means to put to silence the ignorance of foolish men (d).

(a) Rhuf./Rom. 10:2, 12:2; Mich. 6:8; Math./Matt. 15:9; Eseia/Isa. 29:13; 1 Sam. 15: 22-23; Ioan/John 16:2.

(b) Eff./Eph. 2:10; Iago/James 2:22; Math./Matt. 5:16, 7:16-20; 1 Tim. 1:5; 1 Tim. 2:9-10; 2 Tim. 2:21; Ioan/ John 14:15, 15:1-8; Rhuf./Rom. 14:23; Titus 2:14, 3:14.

(c) Luc/Luke 17:10; Rhuf./Rom. 3:20; Eff./Eph. 2:9; Titus 3:5; Job 22:2; Salm/Psa.130:3, 143:2; Eseia/Isa. 64:6; 2 Tim. 1:9; Gal. 5:6.

(d) Ioan/John 14:15, 15:8; Eff./Eph. 2:10 gwêl/see (b); Titus 2:5-12; 1 Tim. 6:1; 1 Pedr/1 Peter 2:12, 15; Phil. 1:11; Rhuf./Rom. 6:22; 1 Ioan/1 John 3:7-10; Col. 1:10.